



Ffurflen Gais Adran 168(4) o Ddeddf Cyfundaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002

Cais i benderfynu bod cyfamod neu amod yn y les wedi cael ei dorri

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau hyn yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflen hon.

Ysgrifennwch yn glir mewn inc DU a thiciwch y blychau sy'n briodol.

Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.

Hon yw'r ffurflen gywir i'w defnyddio:

- os ydych yn landlord o dan les hir ar gyfer annedd (h.y. fel arfer, les sydd wedi'i rhoi am fwy na 21 mlynedd) ac
- os hoffech wneud cais i'r Tribiwnlys am benderfyniad o dan adran 168(4) o Ddeddf Cyfundaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 bod cyfamod neu amod yn y les wedi cael ei dorri.

Dogfennau

Mae'n rhaid i chi anfon copi o'r les(oedd) sy'n cynnwys y cyfamod neu'r amod rydych yn honni sydd wedi'i dorri. Os na fyddwch yn anfon y les ofynnol (lesoedd gofynnol), efallai na fydd y cais hwn yn ddilys.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill ar hyn o bryd. Os a phryd y bydd angen rhagor o ddogfennau, gwybodaeth neu dystiolaeth, byddwn yn gofyn i chi eu hanfon ar wahân.

Anfonwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau a'r les ofynnol (lesoedd gofynnol) i:

**Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Oak House
Cleppa Park
Celtic Springs
Casnewydd
NP10 8BD**

Nodyn i Ymgeiswyr

Dylai ymgeiswyr wybod y gall unrhyw wybodaeth y byddant yn ei rhoi i'r Tribiwnlys gael ei chofnodi mewn dogfen penderfyniad. Mae holl benderfyniadau'r Tribiwnlys ar gael i'r cyhoedd.

Dewis iaith

Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Bydd y tribiwnlys yn derbyn ceisiadau trwy e-bost at rpt@llyw.cymru neu ar ffurf copi caled a anfonir trwy'r post.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys o'ch dewis iaith drwy gwblhau blwch 3 isod.

1. MANYLION YR YMGEISYDD/YMGEISWYR (Os oes mwy nag un ymgeisydd, dylech ddefnyddio dalen ar wahân)

Enw: _____

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): _____

_____Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (*os yw'n wahanol*): _____

_____Ffôn: *Dydd*: _____*Min nos*: _____*Symudol*: _____

Cyfeiriad e-bost: _____

Rôl (*e.e. Perchennog*): _____Manylion y cynrychiolydd: _____

Os rhoddwyd manylion cynrychiolydd, bydd pob llythyr a chyswllt yn cael eu cyfeirio ato hyd nes bod y tribiwnlys yn cael gwybod nad yw'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd/ymgeiswyr bellach.

2. CYFEIRIAD YR EIDDO DAN SYLW (gan gynnwys y cod post)

3. DEWIS IAITH**Nodwch eich dewis iaith:**

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

A ydych yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol a allai ddeillio o'r cais hwn h.y. gwrandawriad tribiwnlys neu adolygiad cyn treial?

Ydwyf / Nac ydwyf (dileer fel y bo'n briodol)

4. MANYLION YR YMATEBYDD/YMATEBWYR

Enw: _____

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): _____

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (*os yw'n wahanol*): _____

Ffôn: *Dydd:* _____ *Min nos:* _____ *Symudol:* _____

Cyfeiriad e-bost: _____

5. MANYLION Y CYFAMOD NEU'R AMOD YN Y LES RYDYCH YN HONNI SYDD WEDI CAEL EI DORRI

Nodwch y cyfamod penodol yn y les rydych yn honni sydd wedi cael ei dorri, a rhowch fanylion am natur yr achos honedig.

6. AWDURDOD

A yw'r tenant wedi cyfaddef ei fod wedi torri'r cyfamod neu'r amod?

YDY NAC YDY

A yw'r achos honedig wedi:

- cael ei gyfeirio at gamau cymrodeddu neu a fydd yn cael ei gyfeirio

YDY NAC YDY

- bod yn destun penderfyniad gan Lys

YDY NAC YDY

- bod yn destun penderfyniad gan Dribiwnlys cymrodeddu

YDY NAC YDY

Os 'ydy', rhowch fanylion.

Nodwch efallai na fydd gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl awdurdod o dan amgylchiadau o'r fath.

7. A ALLWN NI DDELIO Â'CH CAIS HEB WRANDAWIAD?

Mae'n bosibl y gallwn ddelio â'ch cais ar sail sylwadau ysgrifenedig yn unig ('penderfyniad papur') ond dim ond o dan yr amodau canlynol:

- mae'r Tribiwnlys yn credu bod hynny'n briodol
- mae pob parti yn cytuno yn ysgrifenedig

Hyd yn oed os byddwch yn cytuno i benderfyniad papur

- efallai y bydd y Tribiwnlys yn penderfynu bod angen cynnal gwrandawriad llafar
- gallwch chi neu barti arall ofyn am wrandawriad llafar o hyd ar unrhyw adeg cyn i'r penderfyniad gael ei wneud

A ydych chi'n cytuno y gall penderfyniad gael ei wneud ar y cais hwn heb wrandawriad llafar?

YDW NAC YDW

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen hon i gyd gan dybio y bydd gwrandawriad llafar yn cael ei gynnal.

8. BRYD Y CAIS

Mae angen i ni benderfynu a oes angen delio â'ch achos yn gyflym. Rhowch wybod i ni os oes brys arbennig i gael penderfyniad yn yr achos hwn ac os felly, pam?

9. ARGAELEDD

Os oes unrhyw ddiwrnodau neu ddyddiadau y dylem eu hosgoi dros y tri mis nesaf, a fydddech cystal â'u rhestru yma

Dyddiadau pan NA fyddwch ar gael:

10. GOFYNIION LLEOLIAD

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig sydd gennych chi neu rywun a fydd yn dod gyda chi (e.e. mynediad ar gyfer cadair olwyn, angen cyfieithydd ar y pryd. Bydd y Tribiwnlys yn gallu gwneud trefniadau os bydd yn gwybod am eich anghenion.

11. DATGANIAD O WIRIONEDD

Credaf fod y ffeithiau yn y cais hwn yn wir.

Llofnod:

Enw (PRIFLYTHRENNAU):

Rôl (os yw'n briodol) (e.e. Cyfarwyddwr, Ysgrifennydd Cwmni)

Dyddiad:

Rhestr Wirio

Gwnewch yn siŵr:

- eich bod wedi cwblhau'r ffurflen hon i gyd
- eich bod wedi cynnwys y les(oedd)

Ni fydd y Tribiwnlys yn prosesu eich cais os na fyddwch wedi gwneud hynny.

Cysylltwch â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r drefn y bydd y Tribiwnlys yn ei dilyn:

Ffôn: 0300 025 2777
E-bost: rpt@llyw.cymru